

coram pacey cymru

Tyfu'r Lledrith

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwarchod Plant yng Nghymru

2026-2035

Canolfan Ragoriaeth Hyfforddiant coram pacey cymru ac Ymchwil Gwarchod Plant

Cyflwyniad

Ledled Cymru, mae gwarchodwyr plant yn cynnig rhywbeth hudolus i deuluoedd, gan agor eu cartrefi i greu amgylcheddau cyfarwydd a chroesawgar lle gall plant ffynnu a thyfu, a meithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a rhwydweithiau cymorth.

Mae plant yn elwa ar brofiad gofal plant unigryw a phersonol sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion. Mewn grwpiau bach o oedrannau cymysg, cânt eu cefnogi i ddatblygu'n gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol ac yn wybyddol mewn amgylchedd cartrefol a meithringar.

1,060

o warchodwyr plant cofrestredig a gweithredol yng Nghymru

(Arolygiaeth Gofal Cymru, Medi 2026)

Mae gwarchodwyr plant yng Nghymru yn gwneud cyfraniad eithriadol i blant, teuluoedd a chymunedau bob dydd. Drwy eu caredigrwydd, eu medrusrwydd a'u hymrwymiad, maen nhw'n darparu gofal meithringar, hyblyg ac o ansawdd uchel sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a lles plant, gan gynnig gofal plant y gall teuluoedd ymddiried ynddo, sydd wedi'i wreiddio yn eu cymunedau lleol.

Fodd bynnag, ar adeg llunio'r strategaeth hon, mae'n amlwg bod hanfod gwarchod plant – yr hyblygrwydd, y creadigrwydd a'r gofal personol y mae'r gweithlu yn eu cynnig i blant, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru – wedi cael ei golli'n rhy aml. Mae'r sector gwarchod plant yng Nghymru mewn cyflwr ansicr o fregusrwydd. Mae llawer o warchodwyr plant, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd difreintiedig, yn wynebu cau oherwydd costau gweithredu cynyddol, gofynion cynyddol o ran rheoleiddio a chyfleoedd anghyson i ddarparu darpariaeth wedi'i hariannu. Yn ogystal, mae rhwystrau i ddod yn warchodwr plant, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a chofrestru, wedi atal neu rwystro rhai unigolion rhag dod yn warchodwr plant ac felly wedi cyfrannu at y nifer isel o gofrestriadau gwarchodwyr plant newydd a gofnodwyd.

Mae ffigurau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn dangos bod nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig wedi gostwng bob blwyddyn ers 2018, gyda dim ond 1,377 yng Nghymru bellach a dim ond 1,060 o'r rhain yn weithredol. Ar hyn o bryd mae gwarchodwyr plant yn darparu dros 11,000 o leoedd gofal plant sy'n cyfateb i tua 12% o'r lleoedd gofal plant cofrestredig yng Nghymru. Daw hyn ar adeg pan fo cynlluniau ar gyfer ehangu gofal plant wedi'i ariannu, trwy ymrwymiadau Plaid Cymru i ddatblygu cynnig gofal plant mwy hael a chyffredinol i blant iau, wedi'u cyhoeddi. Heb gamau brys i sefydlogi a thyfu'r gweithlu gwarchod plant, mae risg na fydd gwarchodwyr plant yn gallu chwarae eu rhan lawn wrth gyflawni'r ehangu hwn, yn enwedig i deuluoedd sydd angen darpariaeth hyblyg, leol a phersonol. Mae'n debygol y bydd y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn cael effaith sylweddol ar argaeledd a hygyrchedd gofal plant, ac yn bygwth y cyfrifoldeb statudol a roddir ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth gofal plant i blant a theuluoedd.



Cyflwyniad (parhad)

Mae cynnydd wedi bod yn araf yn y meysydd sy'n hanfodol i newid cadarnhaol a argymhellwyd gan yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Trosolwg Grŵp Argymhellion a Gweithgor yr Adolygiad o Warchod Plant, gan ddod â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ynghyd i ystyried canfyddiadau'r adolygiad ac archwilio camau gweithredu posibl ac amserlenni ar gyfer pob un o'r argymhellion. Yn y ddwy flynedd ers cyhoeddi'r adroddiad mae nifer y gwarchodwyr plant yng Nghymru wedi parhau i ostwng ar gyfradd sylweddol. Mae nifer y gwarchodwyr plant yn cael ei effeithio gan nifer y gwarchodwyr plant newydd sy'n cofrestru, yn ogystal â nifer y gwarchodwyr plant medrus a phrofiadol sy'n canslo eu cofrestriad ac yn gadael y sector.

Mae canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol yn dangos bod angerdd dros ofalu am blant, ochr yn ochr â'r cyfle i reoli eu busnes eu hunain, yn ffactorau allweddol sydd wedi annog llawer o unigolion yng Nghymru i ddewis gwarchod plant fel eu hopsiwn gyrfa hirdymor. Mae angen mwy o gymorth ar warchodwyr plant, gan gydnabod eu rôl hanfodol a sicrhau bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i weld yn glir ar draws y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ehangach.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar adroddiad Coram PACEY, Lledrith Gwarchod Plant, a lansiwyd yn ystod Wythnos Gwarchod Plant 2026. Yr adroddiad mwyaf o'i fath, mae'n dwyn ynghyd brofiadau bywyd go iawn, effaith a lleisiau gwarchodwyr plant, rhieni, plant ac arbenigwyr yn y sector, gan ddangos 'Lledrith Gwarchod Plant' ar waith ledled Cymru a Lloegr. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at effaith drawsnewidiol gwarchod plant ar blant, teuluoedd a chymunedau, a'r angen brys i Lywodraethau yng Nghymru a Lloegr gefnogi a thyfu'r gweithlu gwarchod plant.

Rwy'n falch o gyflwyno ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwarchod Plant yng Nghymru, gan nodi sut y gall Coram PACEY Cymru barhau i dyfu 'Lledrith Gwarchod Plant' dros y 10 mlynedd nesaf. Wedi'i ddatblygu gan dîm Coram PACEY Cymru mewn ymgynghoriad â gwarchodwyr plant, mae'r strategaeth hon yn cadw plant, teuluoedd, gwarchodwyr plant a chymunedau wrth wraidd ein gwaith. Gan fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn ymwybodol o'r system, yn ymarferol ac ar sail tystiolaeth, mae'n nodi symudiad bwriadol tuag at gydnabod y gorau y mae gwarchodwyr plant yn ei gynnig i'w cymunedau, yn hytrach na gweld gwarchod plant drwy lens her neu ddirywiad yn unig.

Mae hud gofal plant eisoes ar waith ledled Cymru. Rhaid i ni bellach ei gydnabod, ei werthfawrogi a buddsoddi ynddo fel y gall manteision gwarchod plant dyfu er budd cenedlaethau'r dyfodol.





Claire Protheroe

Coram PACEY Cymru

Ein Hegwyddorion Datblygu

Mae Coram PACEY Cymru yn ddiysgog yn ein huchelgais i hyrwyddo, cefnogi a thyfu gweithlu gwarchod plant ffyniannus yng Nghymru, gan sicrhau bod gwarchodwyr plant yn cael eu cydnabod fel rhan ganolog o ofal plant ac addysg gynnar o ansawdd uchel.

Gan adeiladu ar gryfderau, arbenigedd a chyfraniad unigryw gwarchodwyr plant yng Nghymru, mae'r strategaeth hon yn nodi newid diwylliannol cadarnhaol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae'n gosod dull o weithio sy'n:

1 Canolbwyntio ar y plentyn

Gan roi plant wrth wraidd ein gwaith drwy ganolbwyntio ar y gwahaniaeth a wnawn i blant a theuluoedd.

Rydym yn gwneud hyn drwy roi plant yn gyntaf, deall eu hanghenion a hyrwyddo'r amgylcheddau sy'n eu helpu i ffynnu.

2 Ystyried y system gyfan

Gan gydnabod sut mae polisi, y gweithlu, cyllid a diwylliant yn llunio'r canlyniadau i blant, teuluoedd a gwarchodwyr plant.

Rydym yn gwneud hyn drwy weithio gydag eraill i greu'r amodau sydd eu hangen ar fusnesau gwarchod plant i lwyddo.

3 Cael ei lywio gan dystiolaeth

Gan seilio ein gwaith ar beth rydym yn gwybod sy'n gweithio i warchodwyr plant, plant a theuluoedd yng Nghymru.

Rydym yn gwneud hyn drwy ddefnyddio ein profiad, tystiolaeth ymchwil a straeon bywyd go iawn i ddylanwadu ar bolisi ac ysbrydoli newid.

4 Ymarferol

Sicrhau ymagwedd ymarferol, gan droi uchelgais yn gweithredu drwy gynllunio, dylanwadu a gwneud penderfyniadau.

Rydym yn gwneud hyn drwy weithio gydag eraill i wella prosesau, cryfhau arferion a throi syniadau arloesol yn gamau gweithredu sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'n cymunedau.

Ein Nodau 10 Mlynedd ar gyfer Plant, Teuluoedd, Gwarchodwyr Plant a Chymunedau

Mae Coram PACEY Cymru, yn credu, er mwyn sicrhau'r newid yr ydym am ei weld i warchodwyr plant yng Nghymru, fod yn rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar y gwahaniaeth yr ydym am ei wneud i blant, teuluoedd a chymunedau.

Mae ein nodau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yn disgrifio'r gwahaniaeth hirdymor rydym am i'r strategaeth hon ei wneud i blant, teuluoedd, gwarchodwyr plant a chymunedau ledled Cymru.

Gyda'i gilydd, maent yn nodi gweledigaeth gyffredin ar gyfer sector gwarchod plant cryfach sy'n gwella canlyniadau, yn ehangu dewis ac yn helpu cymunedau lleol i ffynnu. Byddant yn llywio ein blaenoriaethau, ein partneriaethau a'n camau gweithredu, gan sicrhau bod anghenion a phrofiadau plant, teuluoedd a gwarchodwyr plant wrth wraidd y newid.



Plant

Mae plant yn ddiogel ac yn iach, yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cynnwys, gyda'r gofal, y perthnasoedd a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i chwarae, dysgu, perthyn a chyrraedd eu potensial llawn.



Teuluoedd

Gall teuluoedd gael mynediad at ofal plant dibynadwy, hyblyg a chynhwysol sy'n diwallu eu hanghenion, yn cefnogi lles, yn cynnig dewis gwirioneddol ac yn eu helpu i deimlo'n hyderus, yn wybodus ac yn gysylltiedig.



Gwarchodwyr plant

Mae gwarchodwyr plant yn cael eu gwerthfawrogi, eu cydnabod a'u cefnogi fel gweithwyr proffesiynol medrus, sydd â'r hyder, y cyfleoedd a'r adnoddau i dyfu, arloesi ac adeiladu busnesau cynaliadwy a ffyniannus.



Cymunedau

Mae cymunedau'n gwerthfawrogi gwarchodwyr plant ac yn ymatebol i anghenion lleol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd, trwy bartneriaethau cryf, fel bod plant a theuluoedd yn elwa o gefnogaeth leol gysylltiedig a chynhwysol.


PLANT

NOD:

Mae plant yn ddiogel ac yn iach, yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cynnwys, gyda'r gofal, y perthnasoedd a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i chwarae, dysgu, perthyn a chyrraedd eu potensial llawn.

Rydym eisiau i blant mewn lleoliadau gwarchod plant:



Bod yn ddiogel ac yn iach

Mae plant yn ddiogel ac yn iach, wedi'u cefnogi gan berthnasoedd meithringar, amgylcheddau cadarnhaol a chyfleoedd i chwarae, dysgu, archwilio a thyfu



Cael eu clywed a'u cynnwys

Mae plant yn datblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth, perthyn a hyder, gyda'u hawliau'n cael eu cynnal a'u lles yn cael blaenoriaeth.



Cael y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir

Mae plant yn derbyn cefnogaeth bersonol ac amserol sy'n cydnabod eu hamgylchiadau, eu cryfderau a'u hanghenion unigol.



Cael cyfleoedd cyfartal lle bynnag maen nhw'n byw

Gall plant ledled Cymru gael mynediad at ofal plant, addysg, cyllid a chymorth o safon, waeth beth fo'u lleoliad neu eu hamgylchiadau.



Profi trawsnewidiadau cadarnhaol

Mae plant yn cael eu cefnogi i symud yn hyderus rhwng y cartref, gofal plant, addysg a gwasanaethau eraill, gyda'u hanghenion yn cael eu deall

"Mae gan warchodwyr plant rôl sylfaenol i'w chwarae wrth sicrhau bod llawer o blant yn gallu cael mynediad at eu hawliau yn ystod blynyddoedd cynnar eu bywydau. Drwy ddarparu dysgu sy'n canolbwyntio ar chwarae mewn amgylcheddau cynhwysol, diogel a meithringar, mae gwarchodwyr plant yn hyrwyddo hawliau plant ac yn eu helpu i dyfu a datblygu yn ystod eu blynyddoedd cyntaf hollbwysig"

Hugh Russell, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru

Sut rydyn ni'n gwneud i hyn ddigwydd:

1 Cryfhau darpariaeth gwarchod plant

Cefnogi gwarchodwyr plant gyda'r wybodaeth, y sgiliau, yr hyder a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu profiadau meithringar, cynhwysol ac o ansawdd uchel i blant.

2 Hyrwyddo lleisiau a hawliau plant

Sicrhau bod profiadau, lleisiau a hawliau plant yn llywio arferion, polisi a'r broses o wneud penderfyniadau.

3 Dylanwadu ar bolisi a chyllid

Defnyddio llais a phrofiadau gwarchodwyr plant a theuluoedd i ddylanwadu ar bolisïau, cyllid a gwasanaethau fel eu bod yn adlewyrchu anghenion unigol plant a rôl hanfodol gwarchodwyr plant yn well.

4 Gwella mynediad a chynhwysiant

Gweithio gyda phartneriaid i gael gwared ar rwystrau fel y gall pob plentyn a theulu gael mynediad at ofal plant cynhwysol o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion, lle bynnag y maent yn byw a beth bynnag fo'u hamgylchiadau.

5 Cysylltu cymunedau

Cefnogi gwarchodwyr plant i gysylltu, rhannu dysgu, cydweithio a chryfhau rhwydweithiau lleol fel bod plant yn elwa o gefnogaeth fwy cydgysylltiedig, ymatebol a chynhwysol ar draws eu cymuned.

6 Hyrwyddo gwerth ac effaith gwarchod plant ar blant

Codi ymwybyddiaeth o rôl unigryw gwarchodwyr plant wrth gefnogi dysgu, lles a datblygiad plant, gan gryfhau cydnabyddiaeth o'u cyfraniad at deuluoedd, cymunedau a'r system gofal plant ehangach.



TEULUOEDD



NOD:

Gall teuluoedd gael mynediad at ofal plant dibynadwy, hyblyg a chynhwysol sy'n diwallu eu hanghenion, yn cefnogi lles, yn cynnig dewis gwirioneddol ac yn eu helpu i deimlo'n hyderus, yn wybodus ac yn gysylltiedig.

Rydym eisiau i deuluoedd:

Cael eu cefnogi

Gall teuluoedd gael mynediad at ofal plant dibynadwy, lleol a hyblyg sy'n cyd-fynd â'u bywydau, yn cefnogi lles y teulu ac yn diwallu anghenion eu holl blant.

Cydnabod gwerth gwarchod plant

Mae teuluoedd yn deall beth sy'n gwneud gwarchod plant yn unigryw ac yn teimlo'n hyderus yn ei ddewis fel opsiwn gofal plant dibynadwy o ansawdd uchel.

Cael dewisiadau sy'n gweithio iddyn nhw

Gall teuluoedd ddewis o ofal plant o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion unigol, gan gynnwys oedrannau, amgylchiadau, iaith, diwylliant a chymuned eu plant.

Cael mynediad at gyllid a chefnogaeth yn hyderus

Gall teuluoedd ddeall y cymorth ariannol a'r gefnogaeth ehangach sydd ar gael, llywio drwyddo'n hawdd, a chael beth sydd ei angen arnynt heb gymhlethdod diangen.

“Lledrith gwarchod plant yw, yn syml iawn, cariad ar waith. Bob bore mae ein plant yn mynd i gartref go iawn, nid sefydliad, lle maen nhw'n cael eu dal, eu hadnabod, a'u gofalu'n dyner fel unigolyn. Dyma’r trosglwyddiad di-dor, di-frys o’n cartref ni i gartref arall, lle nad oes rhaid iddynt erioed deimlo sioc byd rhy fawr neu rhy swnllyd neu rhy amhersonol.”

Rhiant i dri o blant

Sut rydyn ni'n gwneud i hyn ddigwydd:

1 Gwneud gwarchod plant yn weladwy ac yn ddealladwy

Cyfathrebu'n glir â theuluoedd ynglŷn â beth mae gwarchodwyr plant yn ei gynnig a manteision gwarchod plant, gan herio camsyniadau a chodi proffil gwarchodwyr plant fel dewis o ansawdd uchel.

2 Cryfhau dewis ac argaeledd

Cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd gweithlu gwarchod plant amrywiol fel bod gan deuluoedd ddewisiadau lleol gwirioneddol sy'n adlewyrchu eu hanghenion.

3 Cynnwys lleisiau teuluoedd yn ein gwaith

Gwrando ar deuluoedd a defnyddio eu profiadau i lunio ein gwasanaethau, ein hymgyrchoedd, ein partneriaethau a'n dylanwad ar bolisïau.

4 Gwneud cyllid a chefnogaeth yn haws i deuluoedd eu defnyddio

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i symleiddio gwybodaeth, cael gwared ar rwystrau a helpu teuluoedd i ddeall, cael mynediad at ac elwa o'r cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

5 Hyrwyddo gofal plant cynhwysol sy'n ymatebol i ddiwylliant

Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall teuluoedd gael mynediad at ofal plant sy'n adlewyrchu eu hiaith, eu diwylliant, eu hunaniaeth, eu hanghenion a'u hamgylchiadau.



GWARCHODWYR PLANT



NOD:

Mae gwarchodwyr plant yn cael eu gwerthfawrogi, eu cydnabod a'u cefnogi fel gweithwyr proffesiynol medrus, sydd â'r hyder, y cyfleoedd a'r adnoddau i dyfu, arloesi ac adeiladu busnesau cynaliadwy a ffyniannus.

Rydym eisiau i warchodwyr plant:

Cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod fel gweithwyr proffesiynol

Mae gwarchodwyr plant yn cael eu parchu fel gweithwyr proffesiynol medrus ac yn cael eu cydnabod am y gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud i blant, teuluoedd a chymunedau.

Datblygu a thyfu gyda hyder

Gall gwarchodwyr plant gael mynediad at gyfleoedd i ddatblygu eu gwaith, cryfhau eu busnesau, arloesi a rhannu eu harbenigedd ag eraill.

Darparu gofal cynhwysol ac ymatebol gyda hyder

Mae gan warchodwyr plant y wybodaeth, y sgiliau, yr adnoddau a'r gefnogaeth i ddiwallu anghenion pob plentyn, gan adlewyrchu eu hiaith, eu diwylliant, eu hunaniaeth a'u hamgylchiadau.

Adeiladu busnesau cynaliadwy a ffyniannus

Gall gwarchodwyr plant gael mynediad at gyllid teg, cymorth busnes a chyfleoedd sy'n eu galluogi i adeiladu incwm sefydlog a chynnal darpariaeth gwarchod plant o ansawdd uchel.

"Rwy'n dwlu ar gael rheolaeth dros fy niwrnod a'r annibyniaeth y mae gwarchod plant yn ei rhoi i mi. Gallwn ni newid ein cynlluniau ar unwaith yn dibynnu ar y tywydd neu sut mae'r plant yn teimlo'r diwrnod hwnnw. Rwy'n dwlu ar allu gwneud newidiadau er budd y plant heb orfod mynd drwy gadwyn reoli i gael cymeradwyaeth yn gyntaf. Os byddaf yn darllen rhywbeth neu'n dysgu rhywbeth gan unigolion rwy'n ymddiried ynddynt neu mewn digwyddiad hyfforddi, gallaf roi cynnig arno ar unwaith. Gall y rôl hon, yn enwedig yn yr ardal wledig lle rwy'n byw, fod yn ynysig ac yn unig. Rwy'n gwybod y gallaf gael help a chyngor, neu rywun i wrando arnaf, ar fyr rybudd pryd bynnag y bydd eu hangen arnafl."

Sut rydyn ni'n gwneud i hyn ddigwydd:

1 Hyrwyddo gwarchodwyr plant fel gweithwyr proffesiynol

Codi proffil gwarchodwyr plant fel gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar a gofal plant dibynadwy, gan sicrhau bod eu llais, eu harbenigedd a'u heffaith yn cael eu cydnabod mewn polisi, ymarfer a systemau lleol.

2 Creu llwybrau ar gyfer twf a datblygiad

Darparu a dylanwadu ar gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth, datblygu busnes a dilyniant, gan alluogi gwarchodwyr plant i feithrin eu hyder, eu dyheadau a'u harbenigedd.

3 Meithrin hyder a gallu

Rhoi'r wybodaeth, y sgiliau, yr adnoddau a'r rhwydweithiau sydd eu hangen ar warchodwyr plant er mwyn darparu gwasanaethau gwarchod plant cynhwysol, ymatebol ac o ansawdd uchel.

4 Dylanwadu ar gyfleoedd a chyllid teg

Gweithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid i gael gwared ar rwystrau a sicrhau bod gan warchodwyr plant fynediad teg at raglenni a chyfleoedd a ariennir sy'n cefnogi busnesau cynaliadwy.

5 Cysylltu a rhannu arbenigedd

Creu cyfleoedd i warchodwyr plant gysylltu, cydweithio, arloesi a rhannu eu gwybodaeth ar draws rhwydweithiau lleol a'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ehangach.



CYMUNEDAU



NOD:

Mae cymunedau'n gwerthfawrogi gwarchodwyr plant, maen nhw'n ymatebol i anghenion lleol ac yn cydweithio, trwy bartneriaethau cryf, fel bod plant a theuluoedd yn elwa o gefnogaeth leol gysylltiedig a chynhwysol.

Rydym am i gymunedau:

Gwerthfawrogi a chydnabod gwarchodwyr plant fel gweithwyr proffesiynol

Mae gwarchodwyr plant yn cael eu gwerthfawrogi fel gweithwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar dibynadwy, gan wneud cyfraniad pwysig at blant, teuluoedd a bywyd cymunedol.

Gwrando ar warchodwyr plant a'u cynnwys

Mae awdurdodau lleol, partneriaid a gwasanaethau'n deall busnesau gwarchod plant ac yn cynnwys gwarchodwyr plant mewn cynllunio lleol, gwneud penderfyniadau a datblygu gwasanaethau.

Adlewyrchu hunaniaeth, iaith ac amrywiaeth leol

Mae darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar yn adlewyrchu iaith, diwylliant, hunaniaeth ac amrywiaeth cymunedau lleol, gan gynnwys y Gymraeg.

Bod yn gysylltiedig ac yn gydweithredol

Mae gwarchodwyr plant yn rhan o rwydweithiau lleol cryf ar draws cymorth i deuluoedd, gofal plant, addysg a gwasanaethau cymunedol, gan greu cymorth mwy cydgysylltiedig i blant a theuluoedd.

"Trwy arolygu ac ymgysylltu parhaus â'r sector, mae AGC yn gweld sut mae gwarchodwyr plant yn defnyddio'r amgylchedd cartref i feithrin perthnasoedd diogel, ymateb i anghenion unigol a chefnogi lles, chwarae, dysgu, datblygiad a chyfathrebu plant. Mae'r dull personol hwn, ynghyd ag arfer proffesiynol cryf, yn galluogi plant i deimlo'n gartrefol, yn hyderus ac yn frwdfrydig yn eu chwarae a'u dysgu, gan gynnig gofal plant dibynadwy yn y gymuned i deuluoedd"

Ceri Herbert, Pennaeth Arolygu, Arolygu Gofal Plant a Chwarae,
Arolygiaeth Gofal Cymru

Sut rydyn ni'n gwneud i hyn ddigwydd:

1 Codi proffil gwarchodwyr plant yn lleol

Hyrwyddo gwarchodwyr plant fel rhan hanfodol o ddarpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar lleol, gan dynnu sylw at eu cyfraniad at blant, teuluoedd a bywyd cymunedol.

2 Meithrin partneriaethau lleol cryfach

Cefnogi cysylltiad gwarchodwyr plant ag awdurdodau lleol, ysgolion, gwasanaethau iechyd a chymorth i deuluoedd a sefydliadau cymunedol i greu cymorth mwy cydgysylltiedig i blant a theuluoedd.

3 Cynnwys gwarchodwyr plant mewn penderfyniadau lleol

Creu cyfleoedd i warchodwyr plant ddylanwadu ar gynllunio, comisiynu, ariannu a datblygu gwasanaethau, fel bod penderfyniadau'n adlewyrchu realiti busnesau gwarchod plant.

4 Adlewyrchu hunaniaeth, iaith ac amrywiaeth leol

Cefnogi gwarchodwyr plant i ddarparu gofal plant cynhwysol, sy'n ymatebol i ddiwylliant ac sy'n adlewyrchu'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, gan gynnwys gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg.

5 Adeiladu cymunedau ymarfer cysylltiedig

Galluogi gwarchodwyr plant i rannu gwybodaeth, cydweithio a chryfhau rhwydweithiau lleol, fel bod plant a theuluoedd yn elwa o gefnogaeth gymunedol fwy ymatebol.



Helpu i dyfu Lledrith Gwarchod Plant yng Nghymru

Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth greu dyfodol llewyrchus i ofal plant yng Nghymru.

Llofnodwch Siarter Gwarchod Plant Coram PACEY Cymru i ddangos eich ymrwymiad i werthfawrogi, hyrwyddo a chefnogi gwarchodwyr plant ac i helpu mwy o blant, teuluoedd a chymunedau i brofi Lledrith Gwarchod Plant.

Bydd Coram PACEY Cymru yn cyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi'r camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd gyda gwarchodwyr plant, teuluoedd a phartneriaid i gyflawni'r strategaeth hon, monitro cynnydd a throi ein huchelgeisiau cyffredin yn newid parhaol.



Ynglŷn â Coram PACEY

Mae Coram PACEY eisiau i bob plentyn brofi gofal plant ac addysg gynnar o ansawdd uchel, gan eu helpu i gael dyfodol disglair.

Rydym yn cefnogi pawb sy'n ymwneud â gofal plant ac addysg gynnar i ddarparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel i blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Ynglŷn â Coram PACEY Cymru

Mae Coram PACEY Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i ddylanwadu ar ddyfodol plant a chynrychioli gwarchodwyr plant. Mae ein gwasanaeth ymroddedig yng Nghymru yn llywio polisi gofal plant a blynyddoedd cynnar cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

corampacey.org.uk

CoramPACEYCymru

CoramPACEYCymru

PACEYorgUK

CoramPACEY

Y Maltings,
Stryd East Tyndall,
Caerdydd
CF24 5EZ

Tel: 02920 351407

coram pacey cymru

Mae Coram PACEY yn rhan o Sefydliad Thomas Coram i Blant (elusen gofrestredig rhif 312278).

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**